| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Medi 2014** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb ac arbedion refeniw'r Cyngor fel y cytunwyd ar gyfer 2014/15. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Aelodau i nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

Aelodau'n cymeradwyo'r gwaith o greu Cronfa Offer Newydd ar gyfer y Gwasanaethau Hamdden. Byddai dyraniadau i'r gronfa yn amodol ar gymeradwyaeth pellach gan y cabinet.

Mae'r aelodau'n cymeradwyo'r trosglwyddiad o £30k i Gronfa Gwasanaeth y Crwner a fydd yn helpu i hwyluso gostyngiad yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r cyngor ar gyfer 2014/15 a nodir yn (Atodiad 1). Cyllideb refeniw net y cyngor yw £188m (£192m yn 13/14). Mae'r sefyllfa ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yn rhoi rhagolwg gorwariant o £114k.  Caiff naratif pellach ei amlinellu isod. Cytunwyd ar arbedion o £7.1m fel rhan o'r gyllideb ac ar hyn o bryd, cymerir yn ganiataol eu bod wedi'u cyflawni.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sail i weithgaredd ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae naratif gwasanaeth perthnasol yn cael ei ddangos yn y paragraffau canlynol.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden -** Y rhagolwg presennol yw cael cyllideb gytbwys, gyda lefelau incwm yn fwy na'r cyllidebau yn y safleoedd hamdden o tua £60k. Os bydd y duedd hon yn parhau ac y cedwir costau o fewn y gyllideb, yna mae'n debygol y bydd y cynigion arbedion gan y Cyngor a gaiff eu cyflwyno ar gyfer 15/16 yn cael eu gwireddu'n gynnar. Yn wyneb y ffaith mai strategaeth y gyllideb yw gweithio tuag at gyllideb net o sero ar gyfer canolfannau hamdden, byddai'n ddoeth creu 'Cronfa Offer Newydd " er mwyn galluogi i ariannu eitemau offer cyffredinol yn y dyfodol. Gallai unrhyw dan wariant o 14/15 cael ei glustnodi ar gyfer y diben hwn. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â symud i gyllideb net o ddim ar gyfer canolfannau hamdden.

Mae Canolfan Fowlio Gogledd Cymru bellach wedi ail-agor ers dechrau mis Medi 2014. Ar y cam hwn, tybir y bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cyfleuster dros fisoedd y gaeaf yn cael eu gosod yn erbyn incwm gan aelodau, ymwelwyr a gan y bwyd a diod sydd ar gael.

**Cefnogaeth Cwsmeriaid ac Addysg -** swydd wag yn dwyn i gyfrif y tanwariant net bach o £26k a ragwelir.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant –** mae gwaith manwl yn mynd rhagddo i ddarparu amcangyfrif cadarn ar gyfer gwasanaethau Y Tu Allan i'r Sir ac Adennill. Mae'r cyllidebau hyn wedi tanwario yn ddiweddar, fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn gyfnewidiol gan eu bod yn seiliedig ar niferoedd disgyblion a thrafodaethau rhwng awdurdodau. Bydd sefyllfa fanylach ar gael y mis nesaf pan fydd effaith y newidiadau a wnaed yn y flwyddyn ysgol newydd wedi ei deall yn llawn.

**Gwella Busnes a Moderneiddio** - Er bod y gwasanaeth yn dangos nad oes unrhyw anghydfod ar hyn o bryd, mae ansicrwydd ynghylch amseriad y gwariant yn y meysydd canlynol:

- Mae nifer o waith ailstrwythuro gwasanaethau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn symud ymlaen yn gynt nag eraill ac felly yn cynhyrchu arbediad yn ystod y flwyddyn 2014/15.
- Mae'r strategaeth TG yn cynnwys lefel uchel o fuddsoddiad, ond mae gwariant yn dibynnu ar gynnydd ac amseriad nifer o brosiectau.

Mae'r cyllidebau **Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd** wedi cael eu huno i adlewyrchu'r strwythur rheoli corfforaethol diweddaraf.

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd - fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r gwasanaeth yn wynebu nifer o bwysau a**

**risgiau yn 2014/15. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y gwasanaeth yn gorwario o £313k er y bydd y gwasanaeth yn parhau i geisio nodi camau rheoli i gynnwys y pwysau hwn o fewn y gyllideb gyffredinol.** Y prif feysydd o bryder yw:

- Mae’r gorwariant o £171k yn y Gwasanaeth Cludiant Ysgol yn parhau i fod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a dim ond pan fydd gofynion cludiant disgyblion tymor ysgol newydd yn hysbys y bydd amcanestyniad manwl gywir ar gael. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen hefyd yn gweithio tuag at nodi atebion parhaol i'r broblem hon ar hyn o bryd.

- Mae'r gostyngiad mewn incwm o barcio a welwyd yn ystod 2013/14 (yn bennaf yn y Rhyl a Phrestatyn oherwydd y parcio am ddim a’r gwaith o ail-leoli storfeydd allweddol ym Mharc Prestatyn) wedi parhau drwy'r haf ynghyd â'r gostyngiad parhaus mewn incwm Rhybudd Talu Cost. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn ceisio â lliniaru’r gorwariant:
    - Rheoli perfformiad y staff gorfodi’n well er mwyn cynyddu incwm RhTC.
    - Mae costau gweithredol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i geisio gwneud iawn am effaith y gostyngiad mewn incwm ymhellach.
    - Caiff tariffau prisio ar gyfer y meysydd parcio eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad traffig a pharcio parhaus sy'n cael ei gynnal yn sgil y Strategaeth Uchelgais Economaidd.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes** - y rhagolwg cyfredol ar gyfer 2014/15 yw cadw cyllideb gytbwys ond mae’n cynnwys nifer o ddyraniadau cyllid untro (gan gynnwys cyllid refeniw o £1.1m fel rhan o'r Gronfa Gofal Canolraddol a’r balansau o £136k a ddygwyd ymlaen).

Ar y cam hwn tybir y bydd holl ddyraniad cyllid y cyngor yn cael ei wario yn y flwyddyn ariannol gyfredol. O ystyried faint o arian untro a ddefnyddir yn y gwasanaeth eleni, mae'n debygol y gallai tanwariant ymddangos os bydd prosiectau’n llithro ac na fydd y galw am wasanaeth yn cynyddu’n sylweddol.

**Ysgolion - ar ddiwedd mis Awst yr amcanestyniad ar gyfer balansau ysgolion yw £2.951m, sy'n ostyngiad o £941k ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2013/14 (£3.892m).** Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y gyllideb nad yw’n ddirprwyedig yn tanwario o £82k. Mae'r rhagamcan hwn yn seiliedig ar yr holl ddefnyddiau hysbys o'r cyllidebau wrth gefn canolog.

Rhagwelir y bydd tanwariant o £170k ar gyllidebau **corfforaethol**. O hyn, mae £30k yn ymwneud â'r gwasanaeth Crwner. Dyma ail flwyddyn y Gwasanaeth Crwner cyfunol a chaiff y gyllideb hanesyddol ei hadolygu a'i hystyried ar gyfer arbedion effeithlonrwydd posibl ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i drosglwyddo £30k i Gronfa’r Crwneriaid (yn unol â throsglwyddiad y llynedd). Sefydlwyd y gronfa hon i ganiatáu unrhyw amrywiadau o ran costau’r Crwner yn y dyfodol, gyda'r bwriad o leihau'r gyllideb o bosibl. Mae'r gweddill yn ymwneud â thanwariannau ar ddarpariaethau cyllideb ynni canolog a gaiff ei dorri yn 2015/16 fel y cytunwyd

fel rhan o broses y gyllideb. Tybir y bydd unrhyw danwariant arall yn cyfrannu at ariannu'r Cynllun Corfforaethol.

Cronfeydd arian parod y **Cynllun Corfforaethol** ar ddechrau 2014/15 oedd £14.4m. Gan ganiatáu ar gyfer cyllid a gwariant amcanol yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir mai balans y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn fydd £15.6m.

**Cyfrif Refeniw Tai (HRA).** Mae'r sefyllfa refeniw diweddaraf yn rhagdybio cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £83k o'i gymharu â chynnydd gyllidebu o £163k. Mae'r gyllideb refeniw yn rhagdybio y caiff £943k ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf. Gwariant y Cynllun Cyfalaf Tai a ragwelir yw £6.1m.

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Awst, cyfanswm benthyca’r cyngor oedd £150.750m ar gyfradd gyfartalog o 5.51%. Roedd balansau buddsoddi yn £39.1m ar gyfradd gyfartalog o 0.58%. Mae adroddiad llawn ar Reoli'r Trysorlys ar raglen y Cabinet.

Adroddwyd adroddiad manwl ar **Gynllun Cyfalaf** y cyngor i'r Cyngor Sir ar 9 Medi ac ni chaiff ei ailadrodd yn yr adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?**

Cyflwynwyd crynodeb EqIA i'r Cyngor i gefnogi'r arbedion yn y gyllideb eleni.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cyn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir, cafodd yr arbedion eu cytuno gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth a’r Aelodau Arweiniol, eu cyflwyno mewn gweithdai cyllideb aelodau a'u dosbarthu i staff. Trafodwyd y cynigion i fantoli'r gyllideb yn fanwl yn y gweithdai i aelodau a rhoddwyd y cyfle i’r aelodau godi materion cyn i'r adroddiad terfynol fynd i'r Cyngor. Cafodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ddiweddariadau rheolaidd gan fod ganddo rôl oruchwylio o ran proses y gyllideb.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau’n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y tymor canolig, yn enwedig o ystyried maint y gostyngiadau i’r gyllideb sy'n ofynnol yn ystod y ddwy neu’r tair blynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd

monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gofyn i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.